



Pris: 50c

# Papur Pawb

Mai 2021 Rhif 469



Llun o'r awyr gan Kam Rahman o'r cae pêl-droed tu nôl i Maes-y-deri. Stori llawn ar dudalen 12.

tud 3  
Pobl a Phethe

tud 4  
Ysgol Tal-y-bont

tud 6  
Y Talwrn

tud 10  
Dan Do

## Torri Gwallt Dros Achos Da

Dyma lun o Ellen Lilly Davies sydd wedi torri 11 modfedd o'i gwallt i'w roi i'r *Little Princess Trust* er cof am ei thad-cu Stevan Southgate. Roedd Ellen yn gyffrous iawn am yr her hon ac mae hi wrth ei bodd gyda'i steil gwallt newydd. Mae Ellen wedi codi mwy na £600 hyd yn hyn ac mae modd cyfrannu o hyd – chwiliwch am *Ellen's Big Haircut* ar *Just Giving*. Da iawn ti Ellen. Mae Ffion a Jamie, sef mam a dad Ellen mor falch ohoni am wneud yr her ac am ddiolch hefyd i Nicola Ricketts am dorri gwallt Ellen.

### Canlyniadau Etholiad



Llongyfarchiadau i Elin Jones, Plaid Cymru ar ennill sedd Ceredigion yn etholiadau Senedd Cymru. Yn y llun fe'i gwelir yn ymgyrchu yn Nhal-y-bont. Yn ogystal ag Elin fe gynrychiolir yr ardal gan bedwar aelod rhanbarthol a llongyfarchiadau iddynt hwythau hefyd ar eu

llwyddiant, sef Eluned Morgan a Joyce Watson (Llafur Cymru), Cefin Campbell (Plaid Cymru) a Jane Dodds (Rhyddfrydwyr Democrataidd Cymru).

Cafodd un o blant Tal-y-bont, sef Mabon ap Gwynfor, ei ethol i gynrychioli Dwyfor Meirionnydd yn y Senedd. Llongyfarchiadau mawr iddo ef hefyd.



### Ymweliad Rhithiol



Disgyblion Ysgol Tal-y-bont yn mwynhau ysgytlaeth Teulu Jenkins Cerrigcaranau yn dilyn ymweliad rhithiol â'r fferm. Stori llawn ar dudalen 4.



Mi 'wedais i fo' nhw'n addo glaw mawr!



## Papur Pawb

### Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins  
(01970) 832560  
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com

### Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

### GOHEBYDDION LLEOL

#### Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont  
832592

#### Parsel Henlllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn  
832076

#### Bont-goch:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch  
832566

#### Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin  
832573

#### Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths  
(01654) 781264

#### Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

### CYMDEITHAS PAPUR PAWB

#### Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont  
832697

#### Is-gadeirydd:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch  
832566

#### Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont  
832344

#### Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont  
832093

#### Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont  
832448

#### Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

#### Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

#### Plygu'r Papur:

Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

#### Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones;  
Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan  
Gymdeithas Papur Pawb.  
Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

[www.papurpawb.cymru](http://www.papurpawb.cymru)

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweipwr (@papurpawb)

## Llythyrau

Annwyl Olygydd

Fel rhywun o ardal Papur Pawb sydd wedi symud drws nesaf o Ffwrnais i

Fachynlleth, ysgrifennaf atoch ynglŷn â Chylch Meithrin Machynlleth. Rydym yn chwilio am ddau unigolyn arbennig i ymuno â phwyllgor y Cylch. Yn benodol, mae angen trysorydd ac ysgrifennydd arnom. Mae'r ysgrifennydd yn gyfrifol am gymryd cofnodion y cyfarfodydd a chadw trefn ar waith papur/gweinyddol y Cylch ac mae'r trysorydd yn gyfrifol am ofalu am incwm a gwariant y Cylch. Efallai bydd diddordeb gan un o ddarllenwyr Papur Pawb yng ngogledd y dalgylch? Os felly, byddai'n wych clywed gennych chi! Rydym ni'n chwilio am bobl leol gyda diddordeb mewn gweithgareddau'r Cylch a'r Gymraeg sy'n gefnogi amcanion a gwerthoedd y Mudiad Meithrin, ond does dim angen profiad penodol arnoch. Gallwch chi siarad ar Tamsin Davies (tedd29@hotmail.com) am ragor o wybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Tamsin Cathan Davies,  
Cadeirydd

Annwyl Olygydd

A gaf i ddiolch am yr erthygl ddiddorol tu hwnt gan John Evans yn rhifyn mis Ebrill. Mae'n bleser gweld un o fois y pentref yn rhoi ar gof a chadw nifer o fannau sydd, erbyn hyn, wedi mynd yn angof ac wedi diflannu. Yn ystod misoedd yr haf, a phan gaf afael ar fap mwy manwl na'r cyffredin o'r Llyfrgell

## Dyddiadur

### MAI

16 Rehoboth 2 Gweinidog  
23 Bethel 10 Geraint  
Evans

Eglwys Sant  
Mihangel, Eglwysfach  
9.30 Boreol Weddi  
(David Poole)

### MEHEFIN

6 Eglwys Sant  
Mihangel, Eglwysfach  
9.30 Boreol Weddi  
(Andrew Loat)

13 Bethel 10 Gwilym  
Tudur (C)

Genedlaethol, af ati i ddarganfod y llefydd yn yr erthygl. Mae'n bosib bydd angen help y bechgyn a'r merched a fagwyd yn Thal-y-bont i gyflawni'r gwaith a gobeithio y caf eu cymorth. Ond mae gen i deimlad bod llawer mwy o fannau diddorol na'r hyn sydd gennym yn

barod a bod sawl un heb wneud cyfraniad hyd yn hyn. Cyn i mi fynd ati i chwilio, a oes eraill o drigolion y pentref eisiau rhoddi pin ar bapur i gyfrannu at y rhestr? Dowch da chi byddwch o gymorth i wneud rhestr lawn.  
Rhys Huws

## Chwilio am eich lluniau a'ch atgofion o Cors Fochno



Borth gan RK Penson, 1871 (Cors Fochno) gyda chlodwr mawn, Amgueddfa Ceredigion.

Mae Prosiect Cyforgorsydd Cymru LIFE wedi dechrau creu casgliad ar-lein mewn cydweithrediad â Chasgliad y Werin Cymru.

Nod y casgliad yw dathlu hanes cymunedau sy'n lleol i ddau o safleoedd y prosiect - Cors Fochno (Borth) a Chors Caron (Tregaron).

Mae gan Gors Fochno gysylltiadau diwylliannol a hanesyddol bwysig â'r cymunedau ar hyd ei ymylon, o dorri mawn am danwydd ar gyfer aelwydydd cartref i dorri brwyn ar gyfer to gwellt.

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich straeon yn gysylltiedig â Chors Fochno, ac rydym hefyd yn chwilio am hen ffotograffau, fideos, recordiadau sain a chofnodion hanesyddol eraill.

Os hoffech chi gyfrannu, ewch i'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol *Facebook*

@CyforgorsyddCymruWelshRaisedBogs neu *Twitter*

@welshraisedbog neu anfonwch e-bost atom i

LIFERaisedbogs@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Golygyddion Rhifyn Mai

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan, gyda Siôn yn dylunio. Diolch iddynt. Y golygyddion ar gyfer rhifyn Mehefin fydd Geraint ac Eirian (eirianageraint@gmail.com). Y dyddiad cau yw 4 Mehefin a bydd y papur ar werth ar 11 Mehefin.

# Pobl a Phethe



## Priodas Hapus

Priodwyd Nerys Roberts, 90 Maes-y-deri, Tal-y-bont a Todd Rewbury ddydd Sadwrn 10fed Ebrill yn Eglwys Sant Padarn, Llanbadarn. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd derbyniad yn bosibl ond, serch hynny, mwynhawyd achlysur cofiadwy gan deulu a ffrindiau agos. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a phob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol yn eu cartref yn Aberystwyth.

## Pen-blwydd

Mae Mrs Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont, sydd yng nghartref preswyl yr Annedd yn Llanybydder wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar ddiwedd Ebrill. Hoffai ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau a dymuniadau da y mae wedi derbyn.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Sean Dunne, Yr Hen Waith Dŵr, Bont-goch, a'i deulu, ar ôl iddo golli ei dad yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr angladd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 5 Mai.

Cydymdeimlir â theuluoedd y diweddar Mansel Wyn Davies, Brynheidol, Llanbadarn Fawr. Cynhaliwyd yr angladd ar 6 Mai yn Llanbadarn Fawr ac Eglwys Elerch.

## Noson Lawen

Llongyfarchiadau i Sam Ebenezer, 4 Maes-y-felin, Tal-y-bont ar ei berfformiad gwyb ar y Noson Lawen o Geredigion ar S4C yn ddiweddar.

## Marwolaeth

Cydymdeimlwn â Margaret Jones, Penlôn-las, Tal-y-bont sydd wedi colli ei chwaer, Pat Kelly yn Bow St.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Glyn Griffiths, Cae Bitffald, Tre'r Ddôl.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Glenda Jenkins, Dolwerdd, Ffwrnais sydd wedi colli ei thad.

## Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Patrick Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont ar gyrraedd oedran arbennig. Deallwn nad yw wedi bod yn hwylus yn ddiweddar, felly dymunwn wellhad buan iddo.

## Genedigaeth

Mae'n hyfryd medru cyhoeddi fod Samantha a Dylan Hopkins wedi cael mab bach o'r enw Chester Richard Paul. Llongyfarchiadau i Sue a Will Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont ar ddod yn fam-gu a thad-cu.

## Pen-blwydd Arbennig

Cofion gorau i Raymond Smith, Dyfi Villa, Taliesin sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig ddiwedd Mawrth.

## Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Mai Leeding, Glannant, Taliesin sy'n dal yn Ysbyty Bronglais ar ôl torri ei ffêr.

Gwellhad buan hefyd i Jane Nicholls, Rhos, Taliesin sydd yn sâl yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd

## Darllenwyr o fri y C.Ff.I.

Braf oedd gweld aelodau C.Ff.I. Tal-y-bont yn dychwelyd i gystadlu yn ystod mis Ebrill, er bod hynny trwy gyfrwng sgrîn y cyfrifiadur yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Cymru ar ddydd Sadwrn, 24 Ebrill gyda Lois Medi Jones, Pantyperan, Llandre, Oisín Lludd, Bont-Goch a Jano Evans o Glwb Caerwedros yn cystadlu ar ran Ceredigion yn y gystadleuaeth Darllen Iau. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ar gipio'r tlws i'r tîm buddugol yn sgil eu darlleniadau o'r gyfrol Llechi gan Manon Steffan Ros ac yn arbennig i Lois oedd yn Gadeirydd ar y tîm yn ennill y tlws am y darllenydd a'r unigolyn gorau yn y gystadleuaeth. Tipyn o gamp yn wir ac yn derbyn clod arbennig gan y beirniad Iwan Griffiths. Hyfforddwyd y tîm gan Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont.

## Wythnos Cymorth Cristnogol 2021

Gyda chyfyngiadau Coronafeirws yn dal i rwystro gweithgarwch arferol Wythnos Cymorth Cristnogol, ni fydd ein casglwyr yn dosbarthu a chasglu amlenni eleni eto eleni. Ond os ydych yn dymuno gwneud cyfraniad yn uniongyrchol mae croeso i chi wneud hyn.

Gallwch roi:

- Ar-lein ar [www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/cymru](http://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/cymru)
- Dros y ffôn ar 020 7523 2269

Diolch am unrhyw gyfraniadau at y gwaith pwysig yma yn cydweithio gyda phobl a chymunedau ledled y byd i geisio dileu tlodi.

Janet Jones - Trefnydd Lleol

argraffu da  
am bris da



ylolfa


holwch Paul am bris ar [paul@ylolfa.com](mailto:paul@ylolfa.com)  
01970 832 304 [www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com)



# YSGOL TAL-Y-BONT

## Ymweliad rhithiol

Yn dilyn y newyddion cyffrous am fedru prynu llaeth y Teulu Jenkins Cerrigaranau yn Aberystwyth a Machynlleth, roedd hi'n hyfryd i groesawu Sara i'r ysgol yn ddiweddar. Ond yn anffodus, ymweliad dros y we oedd hyn wrth gwrs! Er gwaethaf hynny, fe gafodd plant Dosbarth 1 a 2 brofiad gwych o weld yr holl weithgarwch ar y fferm gan gynnwys gweld Sara'n gorfod perswadio'r gwartheg nad oedd hi'n amser godro eto, oedd yn ddoniol iawn. Roedd gweld y parlwr godro newydd a'r sgwrs am fwyd y gwartheg yn ddiddorol iawn. Mae'r ysgol wedi ymweld â'r fferm yn gyson dros y blyneddau ac wedi gwerthfawrogi'r croeso twymgalon bob tro. Yr uchafbwynt bob amser oedd blasu'r ysgytlaeth ar ddiwedd yr ymweliad. Ond er nad oeddwn yn gallu ymweld eleni, doedd y tro yma ddim gwahanol, gyda'r poteli wedi cyrraedd yr ysgol yn blygeiniol yn y bore ac fel arfer yr ysgytlaeth mefus oedd y ffefryn. Diolch o galon i chi am gefnogi'r ysgol a phob hwyl i chi gyda'r fenter.



## Cyngerdd Cerdd

Roedd hi'n hyfryd i weld disgyblion presennol yr ysgol a chyn-ddisgyblion yn rhan o gyngerdd rhithiol a drefnwyd ar y cyd rhwng Gwasanaeth Cerdd Ceredigion a Chwmni The West End of Wales. Er gwaethaf rhai problemau technegol, roedd hi'n amlwg bod yr holl ymarfer dros y we wedi talu ar ei ganfed mewn perfformiad proffesiynol iawn. Da iawn Hopcyn, Cian, Hedydd a Tomos am ddyfalbarhau ac am berfformio mor raenus. Rwy'n siŵr bod perfformwyr enwog fel y gantores opera Gwawr Edwards a'r cerddor Rhys Taylor wedi gwerthfawrogi eich rhan yn y gyngerdd hefyd!

## Ennill cystadleuaeth

Bu'r ysgol yn ffodus iawn o ennill cystadleuaeth a drefnwyd gan Cardi Iaith yn ddiweddar. Y wobr oedd i Ddosbarth Blwyddyn 1 a 2 gael sesiwn wyddoniaeth gan Awen o Gwmni Sbarduno. Fe gafodd y plant dipyn o hwyl wrth ddysgu sut i greu cwmwl glaw a storm eira mewn pot jam! Ond wrth gwrs sesiwn rhithiol oedd hyn. Diolch yn fawr i Anwen Eleri am drefnu'r weithgaredd ac am hyrwyddo egwyddorion y Siarter iaith gyda ni.



## Ysgol Iach

Rydym wedi bod yn hyrwyddo teithio i'r ysgol gan ddefnyddio beiciau a sgwteri neu gerdded ers sawl blwyddyn bellach ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o blant a'u teuluoedd yn ymateb i'r her yma eto ym mis Ebrill. Diolch o galon i chi gyd am gefnogi'r ysgol wrth i ni gystadlu yn erbyn ysgolion ledled gwledydd Prydain i annog teithio 'gwyrdd' a diogel i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i un disgybl, sef Rosie, am seiclo yr holl ffordd o Bantperthog i Dal-y-bont er mwyn codi arian i Shelter Cymru – gwych!



## Dysgu yn yr awyr agored



## Rhifedd

Da iawn chi blant Blwyddyn 3 a 4 am feddwl yn greadigol am sut i wneud dysgu rhifedd yn fwy diddorol. Gobeithio y byddwch chi'n cofio'r ffeithiau rhif nŵl yn y dosbarth!

## Gwyddoniaeth

Mae'n amlwg fod plant dosbarth Blwyddyn 4 5 a 6 wedi mwynhau cynnal ymholiad gwyddonol yn yr awyr agored. Y nod oedd mesur gwrthiant aer wrth defnyddio parasiwt.







## DNA

Wrth i'n Prifardd lleol Gwenallt Llwyd Ifan lansio ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth (DNA, Barddas) cafodd Papur Pawb gyfle i'w holi am ei waith.

*Llongyfarchiadau mawr Gwenallt ar gyhoeddi dy gyfrol gyntaf. Pam aros mor hir?*

Yn syml iawn, amser. Cefais gynnig cyhoeddi cyfrol rai blynyddoedd yn ôl ond ar y pryd, a minnau'n brifathro ac yn bennaeth, roedd rhywbeth o hyd yn dod ar fy nhraws. Nid yw data, pwyllgorau ac arolygiadau yn llesol i'r awen!

*Esbonia arwyddocâd y teitl, DNA.*

Biocemegydd ydw i o ran fy nghymwysterau a bûm yn athro gwyddoniaeth, bioleg a chemeg trwy gydol fy ngyrfa (hyd yn oed pan yn bennaeth). Mae gennyf ddiddordeb mewn etifeddiaeth fel proses fiolegol a chemegol. Mae'r moleciwl DNA yn rhywbeth rhyfeddol ac mae'r modd mae'r genynau a'r côd genynol yn rheoli pa broteinau sy'n cael eu cynhyrchu mewn celloedd o ddiddordeb mawr i mi. Mae dylanwad hyn oll ar ein nodweddion fel pobl yn bwysig, yn ogystal â'r amgylchedd a magwraeth. Testun y gyfrol felly yw'r dylanwadau hynny arnom ni sy'n ein gwneud yr hyn yr ydym. A oes genyn bardd yn bodoli, tybed? Neu ai dylanwad magwraeth ac amgylchedd sy'n amlygu pethau felly?

*Mae'r bluen wen yn ymddangos mewn mwy nag un o'r cerddi. Wyt ti'n ystyried dy hun yn fardd sy'n pysgota neu'n bysgotwr sy'n barddoni?*



Tipyn o'r ddau. Yn rhyfedd iawn, anaml fydda i'n barddoni pan yn pysgota. Mae'r gamp honno yn rhoi llonyddwch mawr i mi a dwi'n treulio'r amser yn ceisio gweithio allan pam nad ydw i'n dal! Wedi dweud hynny, pan dwi'n cyrraedd adref mae ambell linell neu englyn yn ymddangos. Credaf yn gryf mai


yn yr isymwybod mae barddoni'n digwydd a daw cerdd i'r golwg pan mae'n barod i wneud, a dim cyn hynny. Mae'r bluen wen yn cynrhychioli rhyw ddelfryd ac efallai ymgais bardd i gyrraedd y perffeithrwydd cynganeddol.

*Cerddi cynganeddol yw mwyafrif llethol y cerddi yn y gyfrol. Wyt ti'n priodoli dy lwyddiant fel bardd i'r ffaith dy fod wedi llwyr feistrolï'r cynganeddion?*

Cynganeddwr ydw i. Weithiau daw'r cynganeddion hynny at ei gilydd mewn cerdd sydd efallai'n farddoniaeth. Bues i'n ffodus i gwrdd â John Glyn Jones, Dinbych a oedd yn cynnal dosbarthiadau cynganeddu ac er fy mod wedi dysgu llawer am gynganeddu fy hun o lyfr *Anghenion y Gynghanedd*, Alan Llwyd, fe ddysgais lawer iawn mwy am farddoni gan John Glyn. Wn i ddim a ydw i wedi meistrolï'r gynghanedd ond rydym wedi dod yn ffrindiau da dros y blynyddoedd!

*Gwyddom am dy hiwmor a'th gerddi ffraeth. Pan nad oes rhai ohonynt yn y gyfrol hon?*

Maen nhw dal yn y drôr! Gyda'r gyfrol hon, rwyf wedi ceisio bod yn gynnil ac yn ddisgybledig gan gadw at y thema gyffredin. Er nad yw pob cerdd yn amlwg yn ymwneud â DNA ac etifeddiaeth, mae'r dylanwadau i'w gweld yno. Rwy'n dipyn o ffan o Ernest Hemingway ac rwy'n hoffi ei arddull gynnil iawn fel sydd i'w weld yn *The Old Man and the Sea*. Efallai os caf gyfle, bydd y gyfrol nesaf yn cynnwys mwy o bethau ysgafn.



*A fydd raid i ni aros mor hir am ail gyfrol?*

Gobeithio na fydd. Hoffwn yn fawr barhau i ysgrifennu ac i gasglu cerddi. Mwynheais y broses o gyhoeddi ac roedd Alaw Mai ac Alaw Griffiths yn wych wrth lywio'r gyfrol drwy'r wasg. Rwyf mor falch mai gwasg Y Lolfa gafodd ei hargraffu hefyd!

*Sut brofiad oedd cynnal lansiad trwy gyfrwng ZOOM?*

Profiad rhyfedd iawn ond anorfod. Y bwriad oedd cyhoeddi erbyn Eisteddfod Ceredigion yn Nhregaron a chael noson neu ddwy i lansio a dathlu yma yn Nhal-y-bont ac yn Nhregaron. Buasai cael ffrindiau a theulu ynghyd wedi bod yn brofiad braf iawn i Delyth, Elis, Esther a finne. Roedd sgwrsio gyda Dafydd John Pritchard yn hawdd iawn gan ein bod yn gyfeillion ers blynyddoedd lawer ac felly roedd y peth bron fel sgwrs dros baned. Diolch i Dafydd oedd hynny gan

fy mod i'n crynu yn fy 'sgidiau!

*Soniaist yn y lansiad dy fod yn ceisio barddoni rhyw ben bob dydd. Beth sydd yn dy ysbrydoli i roi pin ar bapur yn ddyddiol.*

Unrhyw beth a phopeth. Flynyddoedd yn ôl cefais wahoddiad i ysgrifennu cerddi i gyd-fynd â phaentiadau gan Ivor Davies. Dyna pryd wnes i gwrdd ag Osi Osmond a sgwrsio am y broses o greu. Yr hyn ddywedodd ef oedd bod angen ymarfer crefft bob dydd rhag i'r tŵls rydu. Dim ots os nad yw'r cynnyrch yn gampwaith, dim ond bod yr arfau'n lân ac yn barod i waith pan ddaw ysbrydoliaeth.

*Pa mor anodd oedd gorfod creu cerddi ar alw fel Bardd y Mis Radio Cymru?*

Yn rhyfedd iawn, daeth y cerddi hynny'n gymharol sydyn er fy mod yn treulio tipyn o amser yn rhoi polish arnynt. Peth od yw gwasgfa amser a gwybod bod angen cyflwyno rhywbeth fydd yn cael ei glywed gan y genedl. Brawychus braidd ond profiad gwych. Rwy'n ddiolchgar iawn i Radio Cymru ac i'r cyflwynwyr am eu caredigrwydd.

*Yn olaf, a oes gyda ti gyngor i feirdd ifanc newydd sy'n awyddus i roi cynnig ar gynganeddu?*

Fy nghyngor i i unrhyw fardd yw darllen barddoniaeth dda. Dyna sut mae dod i adnabod crefft a safon. Os oes rhywun am ddysgu'r cynganeddion, chwiliwch am ddosbarthiadau a thaflwch eich hun i mewn i fyd y gynghanedd. Mae hi'n medru bod yn feistres arnoch chi ond unwaith y dewch chi ei hadnabod cewch weld y byd drwy lygaid gwahanol. Rwy'n clywed y bydd dosbarthiadau yn cychwyn yn Nhal-y-bont pan ddaw'r clo i ben a chawn gyfarfod wyneb yn wyneb!

# Y LLEW GWYN

## Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

**Ar agor bob dydd**

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
**(Un cwrs: £7.95 Dau gwsrs £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**  
**garethwhitelion@outlook.com**



# Tîm Talwrn Tal-y-bont

Llongyfarchiadau i'n beirdd lleol, o dan gapteiniaeth y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan ar gyrraedd ail rownd Talwrn Radio Cymru am eleni. Er iddynt golli eu gornest rownd gyntaf yn erbyn Dros yr Aber roedd eu sgôr uchel yn ddigon i'w galluogi fynd ymlaen fel y collwyr gorau. Dyma flas o gynnyrch Gwenallt, Phil Davies, Delyth Ifan, Anwen Pierce a Phil Thomas, gan ddymuno pob llwyddiant iddynt yn y rownd nesaf yn erbyn Y Chwe Mil a ddarlledir nos Sul 30 Mai.

## Trydargerdd: Cyngor i Gadw'n Ddiogel

I'r sawl sy'n gwrthod mwgwd  
Wrth siopa am dorth wen,  
Wel tyned ei bans amdano  
A gwisged am ei ben.

Gwenallt Llwyd Ifan

## Cwpled caeth yn cynnwys unrhyw derm ariannol

Pa rai ffôl a etholwyd  
all gyfiawnhau banciau bwyd?

Anwen Pierce

## Limrig yn cynnwys y llinell 'Mae gennyf yr holl gymwysterau'

Mae gennyf yr holl gymwysterau,  
Dwy radd, a thystysgrif uwch sgiliau.  
Ces FAFTA am sgriptio  
Ac Oscar am actio,  
A deg am sgrifennu limrigau.

Delyth Ifan

## Cywydd: Agoriad

### Yes Cymru

Yng nghilfachau caeau'r co',  
a'r brwydrau'n haenau yno.  
Yn y brwyn, mannau bryniog,  
llwyni ynn; pob Llyn-Na-Nog.  
Rhwing cloriau'r llyfrau a'u llwch,  
hyd y waliau'n dawelwch.

Mae trysor sy'n rhagori;  
Croes Naid yn ein henaid ni.  
Awn, mentrwn, chwiliwn a chael  
rywfodd y dur i'w afael,  
ac agor cist yn ddistaw  
a hyder llwyr yng nghledr llaw.

Gwenallt Llwyd Ifan

## Pennill ymson mewn ffatri

### Ymson siaced

Fe redai'r bysedd bychain  
yn chwim wrth fwytho'm defnydd.  
A'i dwylo'n gweithio'n gywrain  
i bwytho'm hem â nodwydd.  
'R ôl gorffen ei llafuriau  
daw'r label i ddwblu 'mhris.  
Ac am ei siaced hithau?  
Nid yw ond cot o chwys.

Phil Thomas

## Cân ysgafn: Clensio'r Ddêl

Cychwynnodd fy ngofid wrth agor y post,  
A chyn canol bore roedd fy mhen bach i'n dost,  
Cans yno'n swyddogol mewn dogfen ffwl-sgap  
Roedd cynnig i brynu fy fferm, ac un map.

Archwiliais ei gynnwys â geiriadur wrth law,  
Es allan i stydio y map yn y glaw,  
A deuthum i'r casgliad fod ffortiwn i'w wneud  
Pe gwerthid y cyfan, nid wyf yn gor-ddweud.

Rhyw gwmni o bant oedd am brynu y tir  
A throï eto'n gors y ddôl ffrwythlon ir.  
Byddai'r tŷ'n cael ei ddymchwel gan y diawled bach ewn,  
I atal neb lleol rhag symud i mewn.

Byddai warden yn trigo mewn cwt yn yr ardd  
Tra llenwid y gelltydd â bleiddiaid di-wardd.  
Yn pori y gors fyddai byffalo dŵr  
Ac ambell greadur cynhenid mae'n siŵr.

Cawn fy nhalu yn syth pe ildiw'n pob hawl,  
A bron i mi werthu fy enaid i'r diawl,  
Ond pyllais wrth gofio am gytundeb mwy  
A wnes gyda'm hwyrion a'u dyfodol hwy.

Phil Davies

## Telyneg: Rhith

Mae Chwefror yn agor a niwl  
y bore'n rhyn, y barrug mor styfnig am y wig  
a Mawrth rhywle'n bell ar orwel ein byd.

Simneiau dros doeau o dath  
yn anadlu plu dros y plwyf,  
a'r garthen wen yn haenau.  
Siapiau yn y golau gwan, a chymylau'r lluniau llaith  
yn barêd o ysbrydion.

Yn y dail o dawelwch o dan droed y goedwig,  
pydredd y llynedd yw'r lluniau.  
Cerddwn i'r Gwndwn a'r gât yn wich o'n hôl.  
Daliwn oerfel yn ein hanadl nerfus;  
chwilotwn, a chael eto'r ddraenen wen yn finiog.  
Brath ei nodwyddau'n dechrau magu dail  
yn wyrdd rhwng muriau'r murddun.

Gwenallt Llwyd Ifan

## Englyn: Llif

Ei dwylan fu iddo'n deulu – ei rhuthr  
a'i rhwysg oedd ei Gymru.

'Leni, a'i Deifi o'i du,  
aeth i'w Genarth â'i ganu.

Anwen Pierce



**Alun Davies**  
Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA  
**E** alun.davies142@btinternet.com





Yn mis Mawrth 2021  
lansiwyd gwefan newydd  
ar gyfer yr holl Bapurau  
Bro Cymraeg  
[www.papuraubro.cymru](http://www.papuraubro.cymru).  
Bwriad y wefan yw creu  
un man canolog lle gall  
ddarllenwyr hen a  
newydd ddarganfod

gwybodaeth am yr holl Bapurau Bro Cymraeg.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth gyswllt a mwy ar gyfer  
pob un o'r 58 o Bapurau Bro Cymraeg ar draws Cymru a  
Lloegr sy'n dod â newyddion a gwybodaeth leol i'w  
cymunedau. Gallwch ddefnyddio map rhyngweithiol y wefan i  
ddarganfod pa bapur bro sydd ym mha ardal. Mae gwybodaeth  
ar y wefan am ein papur bro ni, Papur Pawb.

Mae'r Papurau Bro yn cael eu rhedeg gan dimau o  
wirfoddolwyr. Fel rhan o'r wefan, bydd llwyfan i wirfoddolwyr  
y Papurau Bro i rannu adnoddau a chyfathrebu.

Dywed Heledd ap Gwynfor o Fentrau Iaith Cymru [MIC]:  
'Ry'n ni'n falch iawn o fod wedi gallu cefnogi'r Papurau Bro  
drwy weithio ar y prosiect hwn. Gobeithiwn bydd y wefan hon  
yn helpu i greu seilwaith i'r Papurau Bro allu symud ymlaen  
gyda'i gilydd a datblygu mewn cyfnod lle mae presenoldeb  
digidol mor bwysig.'

### BroAber 360

Helo bawb, gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Unwaith  
eto mae 'di bod yn fis da draw ar BroAber360, hefo straeon  
amrywiol ac aml-gyfrwng i fwynhau, gan gynnwys stori gan  
Dana Edwards am ei hoff le i fynd am dro yng ngogledd  
Ceredigion – sydd yn cwmpo tu fewn i ardal Papur Pawb, yn  
Ffwrnais. Gan ei bod hi'n fis cenedlaethol mynd am dro, beth  
am greu darn i'r wefan am eich hoff le i fynd am dro'n lleol, ac  
enwebu rhywun i neud yr un peth? Os rydych eisiau dysgu  
mwy am BroAber360, mae croeso i chi gysylltu â mi ar  
[danieljohnson@golwg.com](mailto:danieljohnson@golwg.com)

## Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



**01970 832772 / 07846 255881**  
[grantmayhewltd@yahoo.co.uk](mailto:grantmayhewltd@yahoo.co.uk)

### STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Ddŵl, Machynlleth, SY20 8BQ

**MID WALES STORAGE**

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu  
gymdeithasau am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r  
gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth  
Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr  
ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 30 Mehefin  
2021.

Yr ysgrifennydd yw:

Delyth Davies

Bryn Siriol

Lluest

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth

SY23 3AU

01970 629984

e-bost [delythdavies6@gmail.com](mailto:delythdavies6@gmail.com)

## Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 [afiaith@aol.com](mailto:afiaith@aol.com)

## Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion  
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig  
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

**Ffôn: 01970 832278**

## Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cyntlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ

[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

**01970 832760**



Am

**GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

### Cyfarfod Misol Mis Ebrill 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol Mis Ebrill ar "Zoom" ar Nos Lun, 26 Ebrill 2021, gyda'r Cynghorwyr i gyd yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, groeso cynnes i bawb.

### Problemau gyda Llygredd Carthffosiaeth yn Nhal-y-bont

Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi llwyddo i gysylltu gyda swyddogion Dŵr Cymru a'i fod yn gobeithio trefnu cyfarfod yn fuan i drafod manylion y sefyllfa.

### Prosiect Cronfa Bandeang Wledig

Amlinellodd y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, fanylion cynllun arfaethedig i wella'r gwasanaeth yn ardal Talybont. Mi fydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn derbyn gwahoddiad gan Broadway, y cwmni y mae trigolion wedi dewis eisoes i weithredu yn y pentref, i gyfarfod Zoom i drafod y prosiect ac i ofyn am gymorth y Cyngor i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth.

### Cae Bach Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, ar ddatblygiadau yn y Cae Chwarae a'r Cae Bach yn Nhal-y-bont. Cadarnhawyd fod nifer o eitemau wedi cael sylw a gobeithir y fydd yna ddau fwrdd picnic newydd yn cael eu gosod yn y Cae Bach yn fuan.

### Sefyllfa Coronafeirws

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, ar y sefyllfa diweddaraf gyda coronafeirws o fewn y Sir. Cadarnhawyd fod pethau yn parhau i wella. Mi fydd rhai

cyfleusterau yn agor yn yr wythnosau i ddod ond fe ddylai pawb barhau i fod yn ofalus.

### Contract Torri Gwair

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gofyn i Mr Dafydd Williams gwneud tri toriad ar y Cae Pêl-droed ger Maes-y-Deri pob blwyddyn. Mi fydd y cytundeb yma yn cael ei adolygu pob blwyddyn ac ar wahân i'r prif contract torri gwair.

### Cyfarfod Blynyddol y Cyngor


Cadarnhawyd y bydd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned ar "Zoom" eleni am 7:00yh ar Nos Lun 24 Mai 2021 gyda'r cyfarfod misol yn dilyn y cyfarfod blynyddol. Os oes unrhyw un angen gwyllo'r Cyfarfod Blynyddol gofynnir iddynt gysylltu gyda'r Clerc trwy yrru e-bost i [rab.jones@btinternet.com](mailto:rab.jones@btinternet.com)

### Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y Gymuned a nifer o faterion eraill yn cynnwys diweddariad am faterion yn y fynwent. Yn dilyn camddealltwriaeth gan y Clerc cadarnhawyd mai'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am y faner ger y Neuadd Goffa yn hytrach na Phwyllgor y Neuadd.

Rab Jones  
Clerc Cyngor Cymuned  
Ceulanamaesmawr  
[rab.jones@btinternet.com](mailto:rab.jones@btinternet.com) /  
07831 402 002 / 07904 716  
180

## PORTREADAU ARVID



**Dyma'r ail yn y gyfres o bortreadau trawiadol gan Arvid Parry-Jones a gyhoeddwyd yn *Papur Pawb* tua deugain mlynedd yn ôl.**

Bydd llawer sydd wedi byw ym Maes-y-felin a'r cyffiniau ers rhai blynyddoedd yn cofio'r cymeriad diymhongar a hoffus Glyn Michell.

Er yn gloff yn gorfforol, roedd yn ddyn galluog a darllengar. Yn wir canolbwyntio ar ei ddiddordeb mewn llyfrau wnaeth y diweddar Goronwy Jones wrth ymweld â Glyn yn ei gartref Madryn, Maes-y-felin, yn 1987. (Mae'r erthygl i'w gweld yn rhifyn Rhagfyr y flwyddyn honno).

Dywedir yn yr erthygl fod '... silffoedd ym mhob ystafell yn gorlifo o lyfrau, yn wir bron na allech daeru fod hyd yn oed waliau'r tŷ'n chwyddo allan gan gynifer y llyfrau sydd yno. Gall Glyn ymfrostio iddo ddarllen pob un ohonynt o leiaf unwaith, rhai o'r goreuon hyd at deirgwaith, nid yw'n diflasu ar eu cynnwys.'

Roedd Glyn yn hoff iawn o ddarllen awduron fel Islwyn Ffowc Elis a Selyf Roberts ond roedd yn eithaf beirniadol o rai awduron mwy diweddar. Ymddiddorodd hefyd mewn anturiaethau dringwyr a theithwyr gan gynnwys y rhai a fu'n dringo mynydd Everest am y tro cyntaf yn 1953.

Yn naturiol felly mae'r ffotograff a dynnwyd gan Arvid yn dangos Glyn gyda llyfr yn ei law.

### Doniol

Wedi noson hwyr yn y dref, roedd yn rhaid i Jac a Twm gerdded adre - taith o rai milltiroedd. Ar y ffordd, maen nhw'n sylwi bod drws yr orsaf fysus ar agor.

"Fe wnawn i fenthyg bws ac fe yrra i ni adre", meddai Jac.

Mae'n mynd mewn i'r orsaf gan adael Twm i wyllo'r drws.

Ar ôl ugain munud, dechreuodd Twm bryderu am ei gyfaill, yna daeth bws allan o'r orsaf gyda Jac yn ei yrru.

"Sori am fod mor hir" meddai Jac "ces i drafferth i ffeindio bws rhif 43. Hwnnw yw'r unig un sy'n mynd i'n pentre ni."



## Y CINIO MAWR - O'r 5ed o FEHEFIN 2021

Mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn gwahodd darllenwyr eich papur bro i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr!

**Beth yw Y Cinio Mawr?** Digwyddiad blynyddol sy'n cael ei gynnal mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru a'r DU. Cyfle i gymdogion ddod at ei gilydd, i rannu diolch a dod i adnabod ei gilydd yn well. Syniad gan yr Eden Project yw'r cyfan ac mae'n bosibl diolch i'r Loteri Genedlaethol.

**Ble?** Unrhyw le yn eich cymuned. Trefnwch baned dros y ffens, cinio yn yr ardd, picnic yn y parc...gallwch addasu i gyd fynd â'r rheolau cymdeithasu, heb orfod canslo! Llynedd gwelwyd dros 165,000 o bobl yng Nghymru yn mwynhau cynnal Cinio Mawr ar-lein, ar stepen y drws a dros y ffens.

**Pwy?** Eich Cinio Mawr chi yw hwn, yn unol â'r rheolau gallwch wahodd y pentref cyfan neu drefnu gyda'ch cymydog agosaf yn unig.

**Sut?** Mae'n syml a does dim costau. Cofrestrwch am becyn dwyieithog Y Cinio Mawr am ddim ar [thebiglunch.com](http://thebiglunch.com). Mae'r pecyn yn cynnwys gwahoddiadau i chi gael dosbarthu i'ch cymdogion, ryseitiau, syniadau am gemau a mwy! Gallwch godi arian i elusen leol hefyd wrth gwrs!

**Pam trefnu Cinio Mawr?** Mae'n bwysicach nag erioed i ymgysylltu gyda'n cymdogion a'r gymuned. Mae'n gyfle i ddweud diolch, i ddod i adnabod ein cymdogion a'n cymuned yn well a chael hwyl. Mae pethau gwyh yn gallu digwydd wrth i bobl ddod at ei gilydd, pwy a wŷr beth fydd gwaddol eich digwyddiad chi.

**Gwobr!** Eleni am y tro cyntaf, mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru wedi partneru gyda Credydau Amser Tempo. Bydd cyfle i wirfoddolwyr sy'n buddsoddi amser am ddim yn eich Cinio Mawr lleol yng Nghymru, wneud cais am gredydau amser i'w gwario ar weithgareddau o bob math yng Nghymru. Rheswm gwyh arall i chi a'ch cymdogion gymryd rhan!

Cysylltwch a rhannwch eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni!

[ljenkins@edenproject.com](mailto:ljenkins@edenproject.com)

Facebook: [edencommunitiescymru](https://www.facebook.com/edencommunitiescymru)

## Mudiad Meithrin yn dathlu 50 mlynedd o ddarparu addysg Gymraeg

Eleni, mae Mudiad Meithrin yn dathlu pen-blwydd arbennig wrth iddynt ddathlu 50 mlynedd ers ei sefydlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1971. Er gwaethaf y cyfyngiadau sydd mewn grym yn sgil pandemig Covid-19, mae lluo o weithgareddau yn cael eu trefnu ar hyn o bryd er mwyn nodi'r achlysur arbennig hwn.

Meddai Dr  
Gwenllian  
Lansdown  
Davies, Prif  
Weithredwr  
Mudiad  
Meithrin:

"Holl  
genhadaeth a

phwrrpas ein gwaith yw defnyddio'r blynyddoedd cynnar fel cyfrwng i greu siaradwyr Cymraeg newydd o blith y plant na fyddai'n siarad Cymraeg fel arall ac mae'r profiad o ddysgu trwy chwarae yn holl bwysig yn ei hawl ei hun. Ond credaf mai gwaddol mwyaf y Mudiad fydd gweld nad oes mo'i angen ryw ddiwrnod, pan bydd ein cyfundrefn gofal ac addysg yn darparu'r gefnogaeth orau posib i'r plant lleiaf a hynny'n awtomatig trwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithio y gwiredir hynny cyn cyrraedd y 100fed pen-blwydd!"



# Y CINIO MAWR

Ar lein. Ar stepen eich drws.  
Dros y ffens. Mae'n digwydd

## O'R 5ED O FEHEFIN 2021

Cofrestrwch am eich pecyn  
dwyieithog am ddim nawr

### THEBIGLUNCH.COM

Y cinio mawr  
the big lunch

eden project THE NATIONAL LOTTERY

MEWN PARTNERIAETH GYDA PARTNERED BY  
**Iceland** the food WAREHOUSE

## CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS

Gwytheyrn,  
Pennant,  
Llanbryn-mair,  
Powys.  
SY19 7BH  
Ffôn: 01650521203

**ebost: [eisteddfodpowys@outlook.com](mailto:eisteddfodpowys@outlook.com)**

Hiraethu am 'Steddfod mewn neuadd bentre'?  
Gweld isho'r wefr o berfformio a chystadlu?  
Awchu am gael trafod pwy gafodd gam gan y beirniad?

Brysiwch i gefn y cwpwrdd i nôl eich dillad gore – mae 'Steddfod Powys Rithiol ar y ffordd! Pwy feddyllie y byddai 'Steddfod hynaf Cymru'n troi'n ddigidol?

Darlledir yr Eisteddfod Powys Rithiol gyntaf erioed ar **Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 10<sup>fed</sup> 2021** ar *YouTube*.

Bydd y **Rhestr Testunau a manylion cystadlu** ar gael o Ebrill 26<sup>ain</sup> ar wefan Eisteddfod Powys:

**[www.eisteddfodpowys.co.uk](http://www.eisteddfodpowys.co.uk)** ac ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Mae bob math o gystadlaethau- rhywbeth at ddant pawb, i blant, teuluoedd, oedolion, dysgwyr a busnesau- rhai traddodiadol a rhai dipyn mwy gwirion!

Am gyfle i ennill gwobrau ariannol a'r clod o fod yn rhan o'r 'Steddfod Taleithiol Rithiol gyntaf yng Nghymru – ewch ati i gystadlu.

**Dyddiad cau** ar gyfer anfon eich gwaith cartref neu fideo o'ch perfformiad llwyfan yw **Dydd Gwener yr 11<sup>eg</sup> o Fehefin**.



# DAN DO

Tŷ arall yn y gyfres achlysurol am dai diddorol, hen a newydd yn nalgylch Papur Pawb. Y tro yma mae'r tŷ yn newydd sbon danlli ac i'w weld yng Nghraig-y-penrhyn, Tre'r Ddôl, tŷ o'r enw Pantafon.

Wrth yrru o Ynyslas tua Cletwr ger Craig-y-penrhyn gwelir ffin



gardd tŷ newydd wedi ei greu o deians! Pwy ar y ddaear fyddai'n adeiladu y fath wal i ddal yr ardd flaen yn ei lle? Pwy ar y ddaear fyddai'n gallu dod o hyd i gymaint o deians, pum teiar o uchder, llawn pridd, a rhyw ugain metr o hyd? Neb ond perchennog cwmni teians wrth gwrs, Huw Lewis Teians a thŷ Huw a Susan Lewis yw Pantafon. Y Cletwr yw'r afon y tu cefn i'r tŷ a'r pant oedd y tir cyn iddynt adeiladu. Nid oes pant yna erbyn hyn gan fod yr awdurdodau wedi mynnu codi uchder y tŷ metr a hanner oherwydd bygythiad llifogydd. Bu'n rhaid i Aled, eu mab, sy wedi adeiladu ei dŷ drws nesaf ers chwe blynedd, godi lefel ei dŷ yntau hefyd. Ers hynny cymaint yw bygythiad ychwanegol llifogydd heddiw holwyd i Huw godi ei dir 40cm yn uwch na thir Aled. Er diogelwch saif y tŷ ar 27 peil wedi eu dyrnu hefo rig enfawr 10m mewn i'r ddaear.

Safai byngalo ar y safle pan brynwyd y darn tir gan y teulu ond oherwydd natur ansefydlog y tir roedd hwnnw wedi simsanu. Chwalwyd hwnnw ac aethpwyd ati i sefydlogi'r tir er mewn creu sylfaen addas ar gyfer yr adeiladau newydd. Cyn adeiladu bu rhaid penderfynu ar gynllun a gan fod Huw a Susan yn edmygu'n fawr y tai pren a welwyd ar eu teithiau aml i sgïo yn yr Alpau aeth y ddau ati i chwilio am gynllun tebyg. Felly tŷ pren amdani ond pa fath o gynllun? Wedi hir chwilio ar y wê daethant i'r casgliad taw tŷ Dores oedd hi i fod, ond cynhyrchir y rhain yn Latfia. Bu'n rhaid teithio i'r wlad honno er mwyn gweld safon y gwahanol gynlluniau a'u haddasrwydd ar gyfer y darn tir yng Nghraig-y-penrhyn ond yn fwy na hynny i brofi iddyn nhw eu hunain eu bod yn hoffi eu dewis o gartref. Penderfynwyd ar un cynllun ac addaswyd rhywfaint arno ac ymhen amser cyrhaeddodd y tŷ pren ar gefn pedair lori enfawr.

Nid yn annhebyg i Sain Ffagan roedd yr holl ddarnau wedi eu labelu a'u rhifo fel bod Mat Young o Bont-goch, perchennog ac asiant cwmni sydd yn adeiladu tai pren Dores ym Mhrydain, yn gallu mynd ati i'w rhoi at ei gilydd.

Gaeaf hir ac oer yw gaeafau Latfia, o'r herwydd gellir disgwyl insiweiddio eithriadol o drwchus ac effeithiol drwy'r tŷ ac yn ychwanegol i hynny mae pren yn ei hun yn dda iawn am gadw oerfel allan a gwres i mewn. O'r 400m o beipiau a suddwyd i mewn i'r ddaear o flaen y tŷ y daw'r gwres; gelwir hyn yn 'tarddiad gwres daearol', hynny yw mae'n defnyddio gwres naturiol yn nyfnder y ddaear i dwymo dŵr. Yn ychwanegol mae'r tŷ yn wynebu'r de ac yn elwa o'r haul i'w gynhesu, pan mae haul! Dywed Huw bod y tŷ yn edrych tua'r môr ac Ynyslas yn ogystal ac yn agored i'n gwynt mwyaf arferol i ni yma, sef gwynt y de-orllewin.



Er i Huw gymryd blwyddyn bant o'i waith, yn rhannol i brofi ymddeoliad ac i wneud peth gwaith ar adeiladu Pantafon, mae eto cryn dipyn o waith heb ei orffen. Mae'r teulu'n byw yn gartrefol a chlyd tu mewn ond nid yw'r gwaith tirlunio y tu allan, heblaw am y wal o deians, wedi dechrau eto naill ai yn y blaen nac yn y cefn. Eu bwriad yw i wneud yr holl dirlunio, cefn a blaen, a'i orffen ar gyfer yr haf ond, fel merch o Nant Gwynant mae Susan yn bwriadu bod y ffin rhwng eu tŷ nhw a thŷ Aled i fod o lechi, hynny yw y crawiau sy'n nodweddiadol o'r ardal magwyd hi, ac mae hi am hynny gynted a phosib!

O.N. Erbyn i chi ddarllen hwn fe fydd y tirlunio wedi gorffen! Rh.H.

**CANOLFAN M.O.T.**

**HUW LEWIS**

**M.O.T. CENTRE**

**Teians**  
**Aliniad Olwyn**  
**Ecsôsts**  
**Batris**  
**Brêcs**  
**Hongiad**  
**Bar tynnu**  
**Gwasanaeth**  
**MOT**

**TEIARS**

**HUW LEWIS**

**TYRES**

**HUWLEWISTYRES.COM**

**Glanyrafon**

**Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deians cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
 Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**  
 Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166    MACHYNLLETH 01654 700000**  
**LLANBED 01570 422221**

**LLAETH LLEOL ORGANIG**

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

[www.llaethjenkinsmilk.co.uk](http://www.llaethjenkinsmilk.co.uk)  
 07813 827 712  
 @cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn  
 Cletwr,  
 Tre'r Ddol

Jenkins, Carrigaranau Uchaf, Talybont



## Colofn Cletwr

Mae mis tawel arall wedi mynd heibio yn Cletwr, er bod y caffi wedi ail-agor ar gyfer tecawês a chwsmeriaid tu allan.

Nawr, rydym yn edrych i'r dyfodol. Y bwriad (os bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno) yw ail-agor i gwsmeriaid tu mewn o 17eg o Fai, ond gyda chyfyngiadau ar bwy all eistedd gyda phwy, rhaid gwisgo mygydau ayyb. Ond fe fydd hi'n fendigedig weld popeth yn edrych yn 'normal'-ish.

Mae'r siop ar agor fel arfer, ond dal yn cau am 5.30 (4 ar ddydd Sul). Mae tymor y salads a mefus lleol yn nesáu, felly dewch yn llw. Mae Rachel hefyd yn gweithio'n galed i drefnu digwyddiadau sydd o fewn y rheolau.

Rydyn ni'n gwneud newidiadau eraill - cadeiriau newydd yn y caffi, parasols ar gyfer y byrddau tu allan ac mae cynlluniau ar y gweill i godi 'pergola' tu cefn i'r adeilad, a fydd yn hyfryd dros yr haf.

Ond, cyn i ni ddychwelyd i drefniadau arferol, mae angen un peth pwysig arall arnom - gwirfoddolwyr! Ers y cychwyn, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn rhan anhepgor o Cletwr. Gweithio yn y siop a chaffi wrth gwrs, ond yn gwneud amrywiaeth eang o dasgau eraill - DIY, helpu yn y swyddfa, garddio, pobi ayyb. Pan ddechreuodd y Gofid, wrth reswm roedd hi'n angenrheidiol i fwyafri o'n gwirfoddolwyr aros gartref. Ond yn nawr, gyda'r haint bron wedi diflannu o'n cylch ni, ac ar ôl i ni gael ein brechiadau, mae pobl yn dechrau meddwl am ddod allan i olau dydd unwaith eto.

Rydyn ni'n deall bod pobl yn dal i fod yn ansicr am gymysgu gyda thorffeydd o bobl, ond mae'r amodau gwaith yn Cletwr cyn ddiogel ag sy'n bosib - rydym wedi bod yn ymwybodol o hyn oherwydd iechyd ein staff, wrth gwrs. Rhaid i bawb wisgo mwgwd, mae sgrînau o flaen y til, dim mwy na 3 cwsmer yn y siop ar un pryd. Mae nifer o'r gwirfoddolwyr wedi dod nôl erbyn hyn, a diolch yn fawr iawn iddyn nhw oll, ond bydden ni'n hoffi gweld mwy, a rhai newydd hefyd. Hyd yn oed os oes dim ond awr i sbario 'da chi, mae'n siŵr bydd rhywbeth rydych chi'n gallu gwneud. Mae'n ffordd wych i ail-ddechrau ar y holl beth o 'cymysgu â phobl'!

Felly, os ydych chi am ail-ddechrau, neu am wirfoddoli o'r newydd, dewch i mewn neu ffonio 01970 832113 am sgwrs sydyn.

Cletwr

### ADEILADWYR CARTREFI I BEILLWYR!

Rydyn ni'n annog defnyddwyr Cletwr i greu cartref i beillwyr yn eu gerddi neu rywle arall agored.

Gweler Tudalen Facebook Paradwys-i-Beillwyr

**Anfonwch e-bost aton ni gyda llun ac ychydig eiriau am eich gwaith. I'ch annog chi, byddwn yn rhoi gwobrau i'n ffefrynnau! Mae gynnoch chi tan ddydd Sadwrn 29 Mai - dechrau**

**Wythnos Natur Cymru [events@cletwr.com](mailto:events@cletwr.com)**

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

*Salon Leri*  
Pob agwedd o drin  
gwallt gan Richard  
10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674

## Y Gair Olaf



Byddwch chi i gyd yn f'adnabod i o'r hen gân "Deryn y Bwn o'r Banna" ond ni fues i'n byw yn yr ardal hon ers tro byd. Eto i gyd, gan eich bod mor groesawgar, dwi wedi dod i ymgartrefu yma. Mae Cors Fochno yn le braf i fyw ynddi. Tynnodd rhywun fy llun i ddangos i chi fy mod i yma. Onid wyf yn aderyn hardd gyda fy mhig hir a'm plu brown a du?

Mae'n debyg y gallwch fy nghlywed i gyda'r hwyr yn Nhaliesin a mannau cyfagos gyda fy nghân atseiniol unigryw: Bwm Bwm Bwm Bwm.

Ry ni'r adar y bwn ddim i'w gweld yn aml yng Nghymru y dyddiau hyn er, yn ddiweddar, mae gwarchodfeydd natur wedi bod yn ein helpu i nythu ar wlypdiroedd fel Cors Fochno. Efallai y daw eraill i gadw cwmni i mi yn y man.

Yn y cyfamser gwyliwch allan amdanaf a gwrandewch yn astud pan fyddwch yng nghyffiniau'r Figyn.

Bwm Bwm  
Aderyn y Bwn



## Cletwr yn dechrau gwaith ar godi gwesty!

Gwesty i bryfed hynny ydi! Erbyn i chi ddarllen hyn efallai bydd o wedi'i orffen ac yn barod i dderbyn gwesteion!

Cofiwch ein cystadleuaeth i greu paradwys i beillwyr yn eich gardd chithau gyda chyfle i ennill gwobr! Gallai hyn fod drwy blannu ychydig o flodau neu goeden flodeuol sy'n denu peillwyr, creu patshyn blodau gwyllt, neilltuo cornel dawl i bryfetach neu adeiladu rhyw fath o westy pryfed fel rydyn ni'n ei wneud, i hybu a dathlu'r creaduriaid hynod werthfawr yma.

Am fwy o fanylion gweler tudalen 11 rhifyn diwethaf Papur Pawb: <http://papurpawb.com/ol-rifynnau/2021/PP-Ebrill-2021.pdf> neu ein tudalen Gweplyfr: <https://www.facebook.com/Paradwys-i-Beillwyr-100518548800954>

**Dyddiad cau: 29 Mai 2021**





# CHWARAEON

## Dychwelyd i Bêl-droed (Rhan 2!)



Mark Evans yn defnyddio'r peiriant marcio newydd sbon a brynwyd gyda chymorth Cronfa Eleri.

Efallai eich bod wedi sylwi ar gyffro unwaith eto ar foreau Sadwrn yn y pentref? Plant mewn crysau lliwgar yn cerdded nôl ac ymlaen i'r cae y tu ôl i Maes-y-Deri, a clip-clop styds ar y palmant? Ydy – mae pêl-droed ymlaen unwaith eto ac mae'r pentref yn lle hapusach, heb os!

Gyda'r llacio cyfyngiadau cenedlaethol, roedd yn bosibl ar ôl Pasg ailddechrau sesiynau hyfforddi. Er o'r tu allan mae hynny yn swnio fel rhywbeth syml i wneud, mae llawer o waith caled wedi bod tu ôl y llenni ers y flwyddyn newydd. Mae plant wedi colli cymaint o'r hyn sydd yn gwneud plentyndod, yn cynnwys pêl-droed rheolaidd. Felly roedd y Clwb, a'r criw bach o wirfoddolwyr sydd yn ei redeg, yn awyddus i wneud y profiad o chwarae mor gyffrous â phosibl.

Yn gyntaf, a diolch i grant gan Cronfa Eleri, prynwyd offer newydd i'r cae. Peiriant marcio newydd sbon, polion corneli, rhwydi a hefyd arwyddion dwyieithog hanfodol er mwyn cyfleu negeseuon pwysig am y Covid. Hoffai'r Clwb ddiolch i Gronfa Eleri ym y rhodd hael iawn, a hefyd i'r Cyngor Cymuned am ei gefnogaeth a'r cyfraniad tuag at gostau'r Clwb i gynnal y cae a'r sesiynau.

I ddathlu y diwrnod hapus, trefnwyd fideo arbennig drone gyda Kam Rahman, rhiant a hyfforddwr gyda'r Clwb. Gweler y fideo trawiadol yn <https://www.facebook.com/watch/?v=506963633813432> neu dilyn 'Aber Drone' ar Facebook.

Mae 4 sesiwn wedi cael eu rhedeg erbyn hyn ac mae'n amlwg bod y cae a'r cyfle i chwarae unwaith eto yn plesio'n fawr. Mae dros 50 o blant wedi bod yn mynychu'r sesiynau mewn 3 grŵp oedran. Rhywbeth i'w ddathlu yn wir.

Mae'n bwysig cydnabod y cyfraniad gan nifer o wirfoddolwyr gan gynnwys Mark Evans a Dave Howard i wella'r cae. Mae nifer o bobl ifanc yn eu harddegau hefyd wedi helpu wrth i ni drio gwella cae sydd yn tueddu bod yn wlyb a mwsoglyd. Yn ystod y cyfnod sych iawn yn ddiweddar helpodd nifer o rieni a

phlant rhoi i dŵr ar y cae a chafwyd tipyn o hwyl yn cario cannoedd o ganiau dŵr yn ôl ac ymlaen!

Mae'r dyfodol yn edrych yn addawol. Mae Cymdeithas Pêl-droed Cymru (FAW) wedi cyhoeddi bydd cynghrair yn ailddechrau ym mis Mai. Bwriad y Clwb yw defnyddio'r cae ar gyfer hyfforddi rhwng Mawrth a Hydref bob blwyddyn, ac yn y gaeaf symud i gyfleusterau bob tywydd / dan do. Bydd y gemau eu hunain, gobeithio, yn cael eu chwarae ar foreau Sadwrn yn y dref.

Mae'r Clwb wastad angen cymorth y cymuned ehangach, a nifer bach o wirfoddolwyr yn gwneud y tasgau gweinyddol i gyd. Un dasg yn y misoedd nesaf bydd trefnu cit newydd i'r 6 tîm sydd yn chwarae ym Medi, a chwilio am noddwyr busnesau lleol. Os hoffech nodi'r Clwb, neu helpu gyda'r gwaith trefnu hyn, rhowch wybod.

Chwiliwch am CPD Ieuenctid Talybont a'r Cylch/Talybont and District Junior Football Club ar Facebook i ddilyn y Clwb neu i gysylltu.

Tom Cosson

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

[www.michaelrowlands.ltd.uk](http://www.michaelrowlands.ltd.uk)  
[m.rowlands1958@gmail.com](mailto:m.rowlands1958@gmail.com)



**Michael Rowlands**  
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF  
[gruffyddjones@goolemail.com](mailto:gruffyddjones@goolemail.com)

**07594 349 354**  
**01970 832 543**

**Gruffydd Jones**  
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio